**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Senedd Cymru os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

2. Gosodwyd Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020") gerbron Senedd y DU ar 12 Hydref 2020 ac maent yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru yn awr. Mae Rheoliadau 2020 ar gael yn:

   The Quality and Safety of Organs Intended for Transplantation (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i nod**

3. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") a wnaed y llynedd, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, i gywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â diogelwch ac ansawdd organau.

4. Bydd yr OS hwn yn diwygio Rheoliadau 2019 er mwyn galluogi'r darpariaethau a ddiwygir gan y Rheoliadau hynny i barhau i weithredu'n effeithiol yng ngoleuni Protocol Gogledd Iwerddon ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (11pm 31 Rhagfyr 2020).

**Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Mae'r Offeryn Statudol yn diwygio Rheoliadau 2019. Mae Rheoliadau 2019 (rheoliad 2) yn diwygio'r ddarpariaeth yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004. Yr effaith felly yw bod y ddarpariaeth yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004 wedi'i diwygio o ganlyniad.

6. Diwygir Adran 32 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 i adlewyrchu Protocol Gogledd Iwerddon, lle caiff Gogledd Iwerddon ei thrin fel pe bai'n Aelod-wladwriaeth (yn amodol ar yr addasiadau i gyfraith yr UE a wneir gan Brotocol Gogledd Iwerddon), ac fel rhan gyfansoddol o'r DU.

7. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 6 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â diogelwch ac ansawdd organau.

**Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

8. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar ddiogelwch ac ansawdd organau. Mae'r OS yn diwygio Rheoliadau 2019 a wnaed ar sail Cymru a Lloegr, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ymarfer cywiriadau ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n gywir. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio unwaith yn rhagor i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd i gleifion a darparwyr. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Vaughan Gething AS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

15 Hydref 2020